- 2) Os yr ydych chi eisoes wedi talu'n llawn am gyfnod am eich gofal trwy gytundeb uniongyrchol gyda chartref gofal, pan fo eich cyfalaf personol chi'n gostwng ac yn eich gwneud yn gymwys am gymorth ariannol i dalu am eich gofal, a'ch bod chi'n gwneud cais i Gyngor Gwynedd am gymorth.

Gweler Tudalen 9, 'Cost- Faint fydd yn rhaid i mi dalu'.

Gall eich dewis o gartref gofal ddibynnu ar nifer o ffactorau. Mae yna nifer o wahanol gartrefi preswyl a nyrsio wedi eu lleoli yng Ngwynedd a thu hwnt i ffiniau'r Sir.

Eich cam cyntaf wrth ddewis cartref yw adnabod eich anghenion gofal. Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn rhoi cymorth i chi adnabod hyn. Pan fydd gennych ddealltwriaeth o'ch anghenion, gallwch wedyn benderfynu pa gartrefi gofal sydd yn gallu cwrdd â'ch anghenion.

- **Gofal Preswyl**

Os oes gennych anghenion gofal preswyl, gall yr anghenion hyn gael eu cwrdd mewn nifer o wahanol gartrefi. Gall y rhain fod yn gartrefi sydd yn cael eu rheoli gan Gyngor Gwynedd neu yn gartrefi sydd yn cael eu rheoli gan y sector annibynnol (e.e. cwmnïau preifat neu elusennau). Gall rhai cartrefi preswyl hefyd ddarparu ar gyfer anghenion pobl gyda Dementia/ Dibyniaeth Uchel, ond dim pob un.

- **Gofal Nyrsio**

Os oes gennych anghenion gofal nyrsio, byddwch angen dewis cartref sydd yn gallu darparu gofal nyrsio. Mae rhai cartrefi gofal yn darparu gofal nyrsio arbenigol ar gyfer pobl sydd gyda Dementia/ Dibyniaeth Uchel, ond dim pob un.

Ni all Cyngor Gwynedd ddarparu gofal nyrsio yng nghartrefi Cyngor Gwynedd. Os oes gennych anghenion nyrsio byddwch angen dewis cartref addas sydd yn cael ei reoli yn y sector annibynnol.

- **Gofal Arbenigol**

Mae rhai cartrefi gofal yn arbenigo mewn darparu gofal ar gyfer

pobl sydd ag anghenion arbenigol e.e. Anableddau Dysgu, lechyd Meddwl neu ddibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau. Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn gallu rhoi cymorth i chi ddarganfod cartrefi arbenigol sydd yn cwrdd â'ch anghenion.

Byw mewn Cartref Gofal neu Nyrsio

Mae'n ofynnol bod yr holl gartrefi gofal yng Nghymru wedi eu cofrestru ac wedi eu harchwilio gan Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) neu sefydliad cyfatebol. Dylech dderbyn gwybodaeth ysgrifenedig am y Cartref Gofal a'i bolisiau a'i weithdrefnau.

Eich Llety

- Bydd gennych eich ystafell eich hun oni bai eich bod yn dewis neu yn cytuno i rannu.
- **Ni fydd eich ystafell yn cael ei newid heb eich caniatâd.** Os yw eich ystafell yn cael ei newid heb eich caniatâd, yna bydd angen i chi ddweud wrth eich Gweithiwr Cymdeithasol.
- Os ydych yn mynd i mewn i'r ysbyty bydd eich ystafell yn cael ei gadw am bedair wythnos, a gall cael ei gadw am gyfnod hirach os oes cytundeb gan bawb. **Ni all neb arall ddefnyddio eich ystafell ac ni ellir ei defnyddio i unrhyw ddefnydd arall tra byddwch chi yn yr ysbyty.** Os oes rhaid gwneud unrhyw drefniadau newydd pan fyddwch yn gadael yr ysbyty yna bydd rhain yn cael eu trafod gyda chi, eich perthnasau neu eich cynrychiolydd.
- Byddwch yn gallu cloi eich ystafell ac yn cael yr allwedd os yw hyn yn briodol.
- Bydd eich ystafell yn cael ei chadw yn lân, taclus, cynnes a heb arogleuon bob amser.

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Gofal Preswyl

- Mae'n rhaid i staff guro ar eich drws cyn iddynt ddod i mewn i'ch ystafell.
- Cewch fynd i'ch ystafell pryd bynnag y dymunwch.
- Gallwch gael ymwelwyr yn eich ystafell pan a phryd y dymunwch.
- Gallwch wneud galwadau ffôn yn breifat.
- Ni ddisgwylir i chi dalu am unrhyw ddodrefn nac offer a ddarperir gan y cartref.
- Gallwch gael rhai o'ch eiddo personol yn eich ystafell, gan gynnwys eitemau bach o ddodrefn. Rhaid iddynt gwrdd â'r rheolau lechyd a Diogelwch ac ni ddylent atal defnydd o'r offer sydd ei angen ar gyfer eich gofal e.e. hoistiau.
- Eich cyfrifoldeb chi yw symud eich eiddo personol pan fyddwch yn symud allan.
- Dylech holi eich Cartref Gofal i sicrhau fod eu polisi yswiriant yn cynnwys eich eiddo chi. Os nad yw yswiriant y Cartref Gofal yn cynnwys eich eiddo, dylech drefnu eich yswiriant eich hun. Gallwch roi eich eiddo gwerthfawr i Reolwr y Cartref Gofal i'w cadw yn ddiogel. Os fyddwch yn gwneud hyn yna dylech gael derbynneb.
- Caniateir ysmegu mewn manau penodol yn unig. Mae hyn yn unol â deddfwriaeth ac i leihau unrhyw berygl i eraill.

Staff

- Rhaid i'r staff eich trin gyda pharch ac urddas bob amser.
- Bydd y staff yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth i'w helpu i wneud eu gwaith yn briodol.
- Rhaid bod nifer ddigonol o staff yn y cartref.

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Gofal Preswyl

- Dylai'r staff wybod amdanoch chi ac am y gofal yr ydych ei angen.
- Dylai'r staff ymateb i'ch ceisiadau am gymorth mor sydyn â phosib.
- Dylai'r staff ddarparu gwasanaeth i chi yn yr iaith o'ch dewis neu yn y dull cyfathrebu sydd orau gennych h.y. iaith arwyddion.
- Ni chaniateir i'r staff dderbyn rhoddion gennych ac ni allant fod yn fuddiolwyr eich ewyllys.

Eich Gofal Personol

Bydd yr help y byddwch ei angen yn cael ei gytuno rhyngoch chi, eich Gweithiwr Cymdeithasol a staff y Cartref Gofal a bydd yn cael ei gofnodi mewn Cynllun Gofal. Bydd gennych gopi o'ch Cynllun Gofal a gall eich teulu neu eich cynrychiolydd ei weld gydag eich caniatâd. Bydd eich Cynllun Gofal yn cael ei ddiweddarau gan eich Gweithiwr Cymdeithasol.

Beth i'w ddisgwyl

- Byddwch yn cael eich annog i wneud cymaint ag y medrwcch drosoch eich hun. Gall hyn gynnwys ymolchi, gwisgo, bwyta, tacluso/glanhau eich ystafell a mynd allan.
- Gallwch ddewis pryd i godi, beth i'w wisgo a pha weithgareddau i gymryd rhan ynddynt.
- Pan yn bosibl, byddwch yn cael dewis staff gofal o'r un rhyw i helpu gyda gofal personol - er enghraifft, ymolchi, gwisgo a defnyddio'r toiled.

Eich Bwyd a Diod

- Dylai'r bwyd a gewch fod yn amrywiol ac yn faethlon.
- Dylech gael pedwar pryd y dydd - brecwast, cinio, te a byrbryd ysgafn gyda'r nos.
- Dylai'r prydau bwyd ystyried unrhyw gredoau crefyddol, beth sydd orau gennych, neu unrhyw ofynion diet sydd gennych.

Eich Gweithgareddau Cymdeithasol

- Mae'n rhaid i'ch Cartref Gofal ddarparu rhai gweithgareddau sydd o ddiddordeb i chi. Mae gennych yr hawl i ddewis os ydych eisiau cymryd rhan ai peidio.
- Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os yw gweithgaredd wedi cael ei drefnu i chi yn unig 'yn unol a'ch cais'.

Gofalu am eich lechyd

- Os yn bosibl, byddwch yn cael cadw eich Meddyg Teulu eich hun neu efallai y bydd angen i chi ddewis un newydd. Byddwch yn gallu gweld eich Meddyg Teulu neu Weithiwr lechyd arall yn breifat os ydych eisiau.
- Gallwch gymryd eich meddyginiaeth eich hun neu gael cymorth i wneud hynny, oni bai y cytunwyd nad ydych yn gallu rheoli hyn yn ddiogel ar eich pen eich hun. Dylai'r Cartref Gofal ddarparu cwpwrdd neu le gyda drôr y gellid ei chloi i chi gadw eich meddyginiaeth yno.
- Ni ddylech dalu am unrhyw gynnyrch gofal ymataliaeth nag offer lleddfu briwiau pwyso.



Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Gofal Preswyl

- Y Cartref Gofal sy'n gyfrifol am wneud trefniadau i chi fynd i'r ysbyty neu fynd i apwyntiadau meddygol. Efallai y gofynnir i'ch teulu fynd gyda chi os yw hyn yn rhesymol ac yn bosib.
- Os bydd angen i aelod o staff fynd gyda chi i apwyntiad arferol yn yr ysbyty, efallai y gofynnir i chi neu eich teulu gyfrannu at y gost.
- Nid oes raid i chi dalu unrhyw gostau eraill sy'n ymwneud ag apwyntiadau ysbyty GIG neu apwyntiadau meddygol GIG.

Newidiadau yn eich Anghenion Gofal

- Bydd staff y cartref yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'ch gofal. Cedwir eich cynllun gofal yn gyfredol a bydd yn dangos unrhyw newidiadau.
- Os nad ydych yn hapus gyda'r gofal rydych yn ei dderbyn gallwch ofyn am gyfarfod i adolygu eich gofal.
- Cynhelir adolygiad o'ch gofal o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau fod y cartref yn parhau i allu cwrdd â'ch anghenion. Os ydych angen mwy o gymorth nag a gewch ar hyn o bryd yn eich Cartref Gofal, gall eich Gweithiwr Cymdeithasol drefnu i chi symud i gartref arall. Byddant yn gwneud hyn ar ôl cael caniatâd gennyh chi, eich teulu neu eich cynrychiolydd.

Pwy fydd yn talu

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi'r hawl i Awdurdodau Lleol i godi tâl am wasanaethau preswyl a nyrsgio sydd yn cael eu trefnu a'u darparu ganddynt.

Mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu polisi codi tâl sydd yn

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Gofal Preswyl

adlewyrchu gofynion Llywodraeth Cymru sydd wedi eu nodi yn y rheoliadau a chôd ymarfer yn ymwneud â chodi tâl ac asesiadau ariannol.

Mae'n bwysig iawn i chi ddeall nad yw gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim. Yn ddibynnol ar eich modd ariannol gallwch fod yn gyfrifol am dalu'r gost lawn am eich gofal.

Os yw'r modd gennych i dalu'n llawn am eich gofal, ac os byddwch yn dewis cartref yn y sector annibynnol gallwch drefnu cytundeb yn uniongyrchol gyda'r cartref. Yn yr amgylchiadau hyn byddwch yn talu'n uniongyrchol i'r cartref gofal heb ddim ymyrraeth gan Gyngor Gwynedd. Ond os ydych chi'n dymuno, gall Cyngor Gwynedd drefnu cytundeb gyda'r cartref gofal annibynnol ar eich rhan.

Os yw Cyngor Gwynedd yn cytuno i drefnu'r gofal ar eich rhan, bydd y trefniadau hyn yn cael eu gwneud o dan delerau cytundebau safonol Cyngor Gwynedd gyda'r darparwyr. Bydd Cyngor Gwynedd yn talu'r ffi safonol sydd wedi cael ei gytuno rhwng Cyngor Gwynedd a'r darparwr. Byddwch chi fel defnyddiwr gwasanaeth yn gyfrifol am dalu cyfraniad misol i Gyngor Gwynedd tuag at gost y gofal. Bydd y cyfraniad hwn yn ddibynnol ar ganlyniad yr asesiad o'ch modd ariannol.

- **Gofal Preswyl**

Bydd eich gofal mewn cartref preswyl yn cael ei dalu amdano unai yn gyfan gwbl gennych chi, neu yn ddibynnol ar eich modd ariannol, gennych chi a Chyngor Gwynedd ar y cyd.

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Gofal Preswyl

- Gofal Nyrsio

Bydd eich gofal mewn cartref nyrsio yn cael ei dalu amdano unai yn gyfan gwbl gennych chi, neu yn ddibynol ar eich modd ariannol, gennych chi a Chyngor Gwynedd ar y cyd. Bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud taliad ychwanegol i dalu am yr elfen nyrsio o'ch gofal.

- Gofal Arbenigol

Bydd eich gofal mewn cartref arbenigol yn cael ei dalu amdano unai yn gyfan gwbl gennych chi, neu yn ddibynol ar eich modd ariannol gennych chi a Chyngor Gwynedd ar y cyd. Oherwydd natur eich anghenion gofal mae'n bosib byddai asiantaethau eraill yn talu symiau ychwanegol i gwrdd â rhai o'ch anghenion e.e. y Gwasanaeth Iechyd neu Awdurdod Addysg. Fydd dim gofyn i chi gyfrannu at gostau'r asiantaethau hyn.

- Gofal Iechyd Parhaus


Os yw eich anghenion gofal yn rhai Nyrsio dwys iawn, gall y Bwrdd Iechyd Lleol benderfynu eich bod angen 'Gofal Iechyd Parhaus'. Os yw'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud bydd y Bwrdd Iechyd yn comisiynu'r gofal yn uniongyrchol gan y darparwr ac yn talu'n llawn am eich gofal. Ni fyddwch chi na Chyngor Gwynedd yn gorfod gwneud cyfraniad ariannol am eich gofal.

Cost - Faint fydd yn rhaid i chi dalu

Cartrefi Preswyl Cyngor Gwynedd

Mae'r Cyngor yn gosod 'ffi safonol' ar gyfer holl gartrefi'r Cyngor. Dyma yw cost lawn y gofal fydd yn daladwy gennych chi os dyfarnir bod

Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel

 www.gwynedd.llyw.cymru



Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Gofal Preswyl

gennych y modd ariannol i'w dalu. Mae'r ffi safonol sy'n weithredol ar hyn o bryd wedi cael ei nodi yn 'Atodiad A' ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Cartrefi'r Sector Annibynnol

Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, ac weithiau yn amlach bydd Cyngor Gwynedd yn adolygu'r ffioedd safonol sydd yn cael eu talu gan Gyngor Gwynedd i'r darparwyr gofali yn y sector annibynnol. Ar hyn o bryd mae pedwar ffi sy'n cael eu talu'n ddibynnol ar eich anghenion:

- 1) Preswyl
- 2) Preswyl Dementia / Dibyniaeth Uchel
- 3) Nyrsio
- 4) Nyrsio Dementia / Dibyniaeth Uchel

Mae'r ffioedd cyfredol wedi cael eu nodi yn 'Atodiad A' ar ddiwedd y llyfryn.

Os ydych chi wedi trefnu cytundeb yn uniongyrchol gyda'r cartref annibynnol, ni fydd y ffioedd a nodi'r yn y daflen hon yn berthnasol i chi. Bydd angen i chi drafod y ffi sydd yn daladwy gyda'r cartref.

Cartrefi Gofal Arbenigol

Fel arfer does dim ffioedd safonol yn cael eu cytuno ymlaen llaw. Bydd cost eich gofali yn cael ei negodi gan y Cyngor yn uniongyrchol gyda'r darparwr. Os dyfarnir bod y modd ariannol gennych, bydd disgwyl i chi dalu'r gost yn llawn am eich gofali.

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Gofal Preswyl

Cartrefi sydd ddim yng Ngwynedd

Does dim rhaid i chi ddewis byw mewn cartref yng Ngwynedd. Cewch ddewis cartref rhywle yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban. Os bydd Cyngor Gwynedd wedi cytuno i dalu am eich gofal yn gyfan gwbl neu ar y cyd gyda chi, fel arfer y ffi uchaf sydd yn cael ei dalu yw'r ffi safonol sydd wedi cael ei bennu gan yr Awdurdod Lleol yn y Sir lle mae'r cartref wedi cael ei leoli.

Costau Ychwanegol

Weithiau bydd rhai cartrefi yn y sector annibynnol yn codi taliadau ychwanegol. Fel arfer bydd hyn yn digwydd os nad ydynt yn fodlon derbyn y ffi safonol mae Cyngor Gwynedd yn ei dalu. Neu, gallent gynnig ystafelloedd neu wasanaeth sydd uwchlaw i'r gofyn safonol.

Mae'n bwysig i chi ddeall na fydd Cyngor Gwynedd yn talu dim mwy na'r ffi safonol. Os yw Cyngor Gwynedd yn talu am eich gofal yn gyfan gwbl neu ar y cyd gyda chi, bydd eich cyfalaf a'ch incwm chi yn cael ei ddefnyddio i ad-dalu'r Cyngor, felly fydd gennych chi ddim arian i dalu costau ychwanegol.

Os byddwch yn dewis cartref sydd yn codi cost ychwanegol bydd angen i chi ddarganfod trydydd parti fydd yn fodlon talu'r gost ychwanegol ar eich rhan. Bydd rhaid i'r trydydd parti brofi i'r Cyngor bod ganddynt y modd ariannol i dalu'r gost, ac arwyddo cytundeb i gadarnhau hyn.

Yr unig eithriad lle caniateir i chi dalu cost ychwanegol o'ch adnoddau eich hunain yw pan fo gennych gyfalaf digonol yn eich eiddo i ganiatáu i'r

costau hyn gael eu gohirio yn erbyn gwerth eich tŷ.

Os bydd y Cyngor yn cytuno i gomisiynu eich gofal mewn cartref gofal sydd yn codi ffi ychwanegol, bydd y Cyngor yn talu'r darparwr. Bydd angen i chi, neu'r trydydd parti ad-dalu'r Cyngor am gost lawn y ffi ychwanegol.

Costau Eraill

Yn gyffredinol, bydd y ffi safonol yn talu am bopeth y byddai disgwyl i gartref gofal ei ddarparu. Ni ddylai'r cartref ofyn i chi am unrhyw arian ychwanegol, ac eithrio ar gyfer pethau ychwanegol y byddwch yn eu dewis, megis papurau newydd, teithiau neu gael trin eich gwallt. Os nad ydych yn siŵr pwy ddylai dalu am wasanaeth neu eitem benodol, cysylltwch â'ch Gweithiwr Cymdeithasol. Os yw'r cartref yn codi ffi am rywbeth ychwanegol, dylid rhoi gwybod i chi cyn i chi symud i mewn.

Asesu eich modd ariannol - Faint fydd rhaid i chi dalu

Eich cyfrifoldeb chi yw gofyn i Gyngor Gwynedd am gymorth ariannol i dalu am eich gofal. Mae'n bwysig iawn i chi ddeall bod faint sydd yn rhaid i chi dalu yn ddibynnol ar eich modd ariannol. Er mwyn asesu eich modd, bydd Cyngor Gwynedd yn gofyn i chi gyflwyno ffurflen gais a datgelu eich holl gyfalaf, asedau ac incwm. Ar sail y wybodaeth a gyflwynir gennych bydd Cyngor Gwynedd yn pennu faint fydd yn rhaid i chi dalu.

Mae'r rheolau sy'n llywio canlyniad eich asesiad ariannol yn niferus ac yn fanwl iawn. O ganlyniad does dim modd eu hegluro yn y daflen hon. Fodd bynnag, yn fras gellir egluro'r drefn a ddilynir fel a ganlyn:

- 1) Bydd y Cyngor yn edrych ar eich cyfalaf a'ch asedau. Os yw gwerth rhain yn uwch na'r 'Terfyn Cyfalaf' bydd disgwyl i chi dalu'r gost lawn am eich gofal. Mae'r 'Terfyn Cyfalaf' yn ffigwr sydd yn cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ffigwr presennol wedi cael ei nodi yn 'Atodiad B' ar ddiwedd y llyfryn hwn.
- 2) Os yw cyfanswm eich cyfalaf yn is na'r 'Terfyn Cyfalaf', bydd faint sydd yn rhaid i chi dalu yn ddibynol ar eich incwm. Mae pob incwm rydych chi yn ei dderbyn gyda rhai eithriadau yn cael ei gymryd i ystyriaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu ffigwr a elwir yn 'Isafswm Incwm'. Hwn yw'r swm wythnosol sydd yn rhaid i'r Cyngor sicrhau eich bod chi'n cael ei gadw o'ch incwm cyn dechrau talu am ofal. Mae'r ffigwr perthnasol ar hyn o bryd wedi cael ei nodi yn 'Atodiad B' ar ddiwedd y llyfryn.

Mae Cyngor Gwynedd yn argymhell fod pawb sy'n cysidro derbyn gofal mewn cartref preswyl neu nyrsio yn gofyn am asesiad o'u modd i dalu cyn cael mynediad i'r cartref. Gall eich Gweithiwr Cymdeithasol eich cyfeirio at yr Tîm Incwm a Lles am gymorth.

Mae gan yr Tîm Incwm a Lles swyddogion sy'n gallu cwrdd â chi i egluro'r drefn asesu ariannol a rhoi cymorth i chi i gwblhau eich cais am gymorth ariannol gan y Cyngor. Mae'r swyddogion hefyd yn gallu rhoi cymorth i chi i wneud cais am fudd-daliadau a sicrhau eich bod yn uchafu eich incwm.

Pa wybodaeth fydd yn rhaid i mi ei ddarparu?

Bydd eich cais am gymorth ariannol yn gofyn i chi nodi manylion eich

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Gofal Preswyl

holl incwm a chyfalaf, gan gynnwys manylion eich perchnogaeth mewn eiddo. Dylid ateb yr holl gwestiynau mor gywir ac mor llawn â phosib.

Bydd angen i chi ddarparu copiâu o ddatganiadau banc a chadarnhad o berchnogaeth unrhyw ased neu incwm sydd gennych.

Os yr ydych wedi penodi unrhyw un i weithredu ar eich rhan bydd rhaid i chi ddarparu copiâu o unrhyw 'Bŵer Cofrestredig Atwrnai', 'Cais i'r Llys Gwarchod' neu unrhyw drefniadaeth ffurfiol. Heb dystiolaeth ysgrifenedig o ganiatâd neu gadarnhad ffurfiol, ni allwn drafod eich materion ariannol gydag unrhyw berson arall oni bai amdanoch chi eich hun.

Mae'n hanfodol ein bod yn derbyn eich ffurflen gais am gymorth ariannol cyn gynted â phosib gyda'r holl wybodaeth sydd ei hangen. Unwaith y bydd y ffurflen wedi ei dychwelyd i'r Tîm Incwm a Lles, bydd eich asesiad ariannol yn cael ei gyfrifo. Byddwch wedyn yn cael gwybod faint fydd angen i chi dalu am eich gofal.

Eiddo

Mae gwerth eich eiddo yn cael ei drin fel cyfalaf yn eich asesiad ariannol. Yn ôl rheoliadau Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r Cyngor ddiystyru gwerth eich prif gartref wrth asesu eich cyfraniad tuag at gostau gofal ysbaid a gofal dros dro ac am gyfanswm o 12 wythnos o ddyddiad eich mynediad i ofal parhaol.

Os ydych yn rhan berchen ar eiddo, dim ond gwerth eich rhan chi fydd yn cael ei ystyried.

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Gofal Preswyl

Mewn rhai amgylchiadau, gall y Cyngor ddiystyru gwerth eich eiddo. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni pwy sydd yn byw yn yr eiddo a pa mor hir maent wedi byw yno.

Ar ôl 12 wythnos o ofal parhaol bydd gwerth eich eiddo yn cael ei drin fel cyfalaf yn eich asesiad ariannol. Mae'n debygol felly bydd gwerth eich asedau uwchlaw i'r 'Terfyn Cyfalaf'. O ganlyniad bydd gofyn i chi dalu'n llawn am eich gofal.

Os mai eich eiddo yw eich unig ased, a does gennych ddim arian parod i dalu'r gost lawn yna bydd rhaid i chi ystyried beth i wneud gyda'ch eiddo. Bydd rhai pobl yn fodlon gwerthu eu heiddo, fydd rhai eraill ddim. Os nad ydych yn fodlon gwerthu eich eiddo gall y Cyngor gynnig 'Cynllun Taliadau Gohiriedig' i chi.

Cynllun Taliadau Gohiriedig

Trwy'r cynllun hwn mae'r Cyngor yn caniatáu i chi ohirio talu cyfran o gost eich gofal. Mae'r gyfran yma gyfwerth a'r gwahaniaeth rhwng cost lawn eich gofal a'r cyfraniad sydd yn bosib i chi ei wneud o'ch incwm.

Er mwyn cymryd mantais o'r cynllun hwn bydd rhaid i chi arwyddo cytundeb gyda'r Cyngor a rhoi caniatâd i'r Cyngor roi arwystl yn erbyn eich eiddo i ddiogelu'r ddyled fydd yn cynyddu. Bydd rhaid i chi dalu llog ar y ddyled.

Mae manylion llawn am y cynllun hwn ar gael gan yr Tîm Incwm a Lles.

Cyfnod Prawf

Bydd pedair wythnos gyntaf eich lleoliad parhaol yn cael ei drin fel cyfnod prawf. Yn ystod y cyfnod hwn, codir tâl arnoch fel preswlydd parhaol a bydd yn ofynnol arnoch i dalu'r gost lawn, neu ffi lai, yn ôl canlyniad eich asesiad ariannol. Os ydych yn penderfynu yn ystod y cyfnod hwn nad ydych yn dymuno aros yn y cartref, cysylltwch gyda'ch Gweithiwr Cymdeithasol.

Gofal Ysbaid a Dros Dro

Mae gofal ysbaid yn cael ei ddiffinio gan y Cyngor fel cyfnod o ofal sydd yn cael ei drefnu gyda dyddiadau dechrau a gorffen wedi eu pennu o flaen llaw. Mae gofal dros dro yn cael ei ddiffinio fel cyfnod byr o ofal sydd yn cael ei drefnu gyda'r bwriad bod y defnyddiwr gwasanaeth yn dychwelyd adref.

Mae eich cyfraniad tuag at gost eich gofal ysbaid/ dros dro yn ystod yr wyth wythnos gyntaf yn cael ei bennu yn unol â'r rheolau sy'n berthnasol i asesiadau gofal dibreswyl. Golygai hyn bod y ffi wythnosol yn cael ei gyfyngu i'r Uchafswm Tâl wythnosol a bennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer holl wasanaethau dibreswyl. Mae'r Uchafswm Tâl wythnosol ar gyfer gofal ysbaid/ dros dro (cyfnodau llai na wyth wythnos) wedi ei nodi yn Atodiad B ar ddiwedd y daflen hon. At bwrpas codi tâl am ofal dibreswyl mae wythnos yn dechrau ar Ddydd Llun ac yn gorffen ar Ddydd Sul. Mae hyn yn golygu os yw eich gofal ysbaid yn dechrau ar Ddydd Sul ac yn gorffen ar Ddydd Mawrth bydd gennych ffioedd ysbaid i'w talu mewn dwy wythnos wahanol.

Absenoldeb o'r Cartref

Os ydych yn dymuno gadael eich cartref ar ôl pedair wythnos y 'cyfnod prawf', dylech gysylltu gyda'ch Gweithiwr Cymdeithasol. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi saith diwrnod o rybudd ysgrifenedig i ddirwyn eich arhosiad yn y Cartref Gofal i ben a bydd rhaid cynnal cyfarfod i asesu eich anghenion.

Os ydych yn penderfynu symud i Gartref Gofal arall cyn diwedd y saith diwrnod o rybudd, gall y Cyngor ofyn i chi dalu cost lawn y Cartref Gofal newydd hyd nes bydd y cyfnod hwn wedi dod i ben.

Os gofynnir i chi adael eich Cartref Gofal, cysylltwch a'ch Gweithiwr Cymdeithasol. Nid oes rhaid i chi adael hyd nes bydd eich Gweithiwr Cymdeithsol wedi gwneud trefniadau eraill ar eich cyfer. Mae disgwyl i'r cartref roi saith diwrnod o rybydd ysgrifenedig i chi.

Os byddwch yn absennol o'r cartref dros dro, bydd y Cartref Gofal yn hysbysu'r Cyngor o fewn un diwrnod gwaith.

Os byddwch yn absennol o'r cartref gofal am unrhyw reswm, bydd rhaid i chi barhau i dalu. Mae cytundeb Cyngor Gwynedd gyda'r cartrefi gofal ar hyn o bryd yn ymrwymo Cyngor Gwynedd i dalu'r gost lawn am bythefnos gyntaf unrhyw absenoldeb. 80% o'r gost lawn am y bythefnos olynol, ac yna, os nad oes cytundeb i gadw'r ystafell am gyfnod pellach, bydd y cytundeb yn dirwyn i ben. Bydd rhaid i chi wneud trefniadau i gasglu eich eiddo a chlirio eich ystafell.

Mae'n bwysig i chi ddeall, tra bod Cyngor Gwynedd yn talu am eich gofal,

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Gofal Preswyl

mae'n ofynnol i chi barhau i dalu eich cyfraniad arferol. Ni fydd y gostyngiad i 80% yn berthnasol i chi os nad ydych yn talu mwy na 80% o'r gost lawn yn arferol.

Terfynu Cytundeb

Gallwch ddod a'r gytundeb i ben trwy roi rhybudd ysgrifenedig o saith diwrnod i'r Cyngor ac i'r Cartref Gofal. Bydd eich cyfraniad arferol yn daladwy am y cyfnod hwn.

Trefniadau Talu

Mae eich cyfraniad yn daladwy o ddiwrnod cyntaf eich gofal yn y cartref gofal. Fel arfer byddwch yn derbyn anfoneb fisol. Cewch ddewis i dalu'r anfoneb trwy ddebyd uniongyrchol, siec, neu dros y ffôn gyda cherdyn credyd neu ddebyd. Mae'r Cyngor yn argymhell os yn bosib eich bod yn cytuno i dalu trwy drefniant debyd uniongyrchol gan ei fod yn llai tebygol fel arfer y bydd taliadau yn cael eu methu gan osgoi'r angen i'r Cyngor orfod anfon llythyrau atgoffa.

Bydd yr un trefniadau yn berthnasol i unrhyw drydydd parti sydd yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw gostau ychwanegol.

Contractau Cartref Gofal

Os oes gennych y modd i dalu am eich gofal yn llawn, ac os ydych yn dewis cartref yn y sector annibynnol, gallwch chi drefnu cytundeb yn uniongyrchol gyda'r cartref. Yn yr amgylchiadau hyn byddwch yn talu'r cartref yn uniongyrchol heb unrhyw ymyrraeth gan Gyngor Gwynedd. Ond os ydych chi'n dymuno, gall Cyngor Gwynedd drefnu cytundeb

gyda'r cartref gofal annibynnol ar eich rhan.

Os yw Cyngor Gwynedd yn cytuno i drefnu'r gofal ar eich rhan, bydd y trefniadau hyn yn cael eu gwneud o dan delerau cytundebau safonol Cyngor Gwynedd gyda'r darparwyr. Bydd dau gytundeb cyfreithiol yn berthnasol i chi o ran eich cytundeb - **Cytundeb Lleoli Unigol a'r Cytundeb Cyn Lleoli**.

- **Cytundeb Lleoli Unigol**

Mae'r cytundeb hwn yn cael ei wneud rhyngoch chi (gall eich perthynas neu gynrychiolydd hefyd wneud hyn drosoch), y Cyngor a'r Cartref Gofal. Os oes trydydd parti wedi cytuno i dalu ffi ychwanegol ar eich rhan, bydd angen iddynt hwythau hefyd arwyddo'r cytundeb hwn. Ar ôl i chi ddarllen y cytundeb fe ofynnir i chi ei arwyddo. Unwaith y byddwch wedi arwyddo'r cytundeb bydd hynny yn golygu eich bod yn cytuno gyda'r Cynllun Gofal a'r Telerau a'r Amodau byw yn y Cartref Gofal.

- **Cytundeb Cyn Lleoli**

Mae'r cytundeb hwn rhwng y Cyngor a'ch Cartref Gofal. Mae'r Cytundeb ar gyfer pawb sy'n byw yn y cartref hwnnw sy'n derbyn arian gan y Cyngor. Mae'n nodi'r telerau, amodau a'r safonau a gytunwyd gan y Cartref Gofal, y Cyngor a / neu'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gofal a llety i bobl gaiff eu hariannu gan y Cyngor a / neu'r Bwrdd Iechyd.

Byddwch yn derbyn copi o'ch Cytundeb Lleoli Unigol a gallwch ofyn am gopi o'r Cytundeb Cyn Lleoli gan Uned Gontractau Adran

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Gofal Preswyl

Oedolion, lechyd a Llesiant y Cyngor.

Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn darllen y cytundeb. Mae'r cytundeb yn cynnwys telerau ac amodau sydd angen i chi a/ neu eich cynrychiolydd fod yn ymwybodol ohonynt, megis talu eich cyfraniad a faint o rybudd sydd angen ei roi os ydych yn dewis symud allan.

Cytundebau Ychwanegol

Pan fyddwch yn mynd i fyw i'ch Cartref Gofal, efallai y gofynnir i chi arwyddo cytundeb sy'n delio â phethau fel:-

- eich ystafell
- defnydd o ystafell(oedd) eraill
- pwy sy'n cadw'r allweddau i'ch ystafell
- os ydych yn cael cadw anifeiliaid anwes
- pryd a sut yr ydych yn gwneud taliadau

Diffyg Cydweithrediad, Amddifadedd a Dyledion

Mae Cyngor Gwynedd yn gwahodd pob defnyddiwr gwasanaeth i wneud cais am gefnogaeth ariannol gan y Cyngor i dalu am eu Gofal Preswyl neu Nyrsio. Ond, os daw'n amlwg i'r Cyngor eich bod ar fwriad yn oedi'r broses o gwblhau asesiad ariannol, neu yn gwrthod datgelu eich manylion ariannol yn llawn, bydd y Cyngor yn codi'r ffi lawn arnoch am eich gofal.

Os daw i sylw'r Cyngor eich bod wedi gwaredu unrhyw ased cyn neu ar

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Gofal Preswyl

ôl derbyn mynediad i'r Cartref Gofal gyda'r bwriad o osgoi talu am eich gofal, gall y Cyngor eich erlyn, neu'r person sydd wedi derbyn yr ased am yr arian sydd yn cael ei ystyried yn ddyledus.

Pe byddwch yn gwrthod talu'r cyfraniad dynodedig am eich gofal, gall y Cyngor eich erlyn chi a'ch cynrychiolwyr (os yw'n berthnasol) drwy'r Llys Sirol i sicrhau'r taliad.

Adolygu eich cyfraniad

Bydd asesiadau ariannol yn cael eu diweddarau o leiaf bob mis Ebrill i adlewyrchu newidiadau blynyddol mewn budd-daliadau gwladol. Yn ogystal gall y ffi safonol mae'r Cyngor yn ei dalu am eich gofal hefyd newid. Os bydd unrhyw newid yn eich cyfraniad byddwch yn derbyn llythyr i'ch hysbysu o'r newid.

Os byddwch yn dymuno gofyn am adolygiad o'ch asesiad ariannol cewch wneud hyn ar unrhyw adeg trwy gysylltu gyda'r Tîm Incwm a Lles.

Os byddwch yn dymuno gwneud apêl i leihau eich cyfraniad dynodedig am unrhyw reswm gall yr Tîm Incwm a Lles ddarparu arweiniad i chi ar sut i wneud hyn.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â thalu am ofal preswyl neu nyrsio cysylltwch â'r Tîm Incwm a Lles ar:

Post: Uned Incwm a Lles, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

☎ 01286 682753 • ✉ UnedIncwmaLles@gwynedd.llyw.cymru

Eich gwybodaeth bersonol

Cyngor Gwynedd fydd yn gyfrifol am eich gwybodaeth bersonol.

Pam ein bod angen eich gwybodaeth?

Rydym yn casglu eich gwybodaeth er mwyn cwblhau asesiad ariannol ar eich cyfer pe baech yn dymuno inni wneud hynny.

Cyfiawnhad dros ddefnyddio eich gwybodaeth

Mae'r Cyngor yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol am fod ganddo ddyletswydd neu hawl gyfreithiol i wneud hynny; neu i berfformio tasg sydd er budd cyhoeddus; neu am eich bod wedi rhoi eich caniatâd. Y term gyfreithiol am hyn yw y sail gyfreithiol o brosesau.

Yn yr achos hwn, mae'r Cyngor yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol am ei fod yn ymgymryd â thasg sydd er budd cyhoeddus.

Ni fydd y Cyngor yn defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau awtomataidd neu broffilio.

Pwy arall fydd yn derbyn eich gwybodaeth

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth gydag unrhyw sefydliad arall. Ni fyddwn yn trosglwyddo eich gwybodaeth i wlad arall.

Pa mor hir fyddwn yn cadw eich gwybodaeth

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth cyhyd ag y bo angen.

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Gofal Preswyl

Eich hawliau

I gael gwybodaeth am eich hawliau a manylion cyswllt Swyddog Diogelu Data'r Cyngor, ewch i'n gwefan

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Trigolion.aspx>

Post: Swyddog Gwybodaeth
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH
☎ 01286 679223 • ✉ [gcgc@gwynedd.llyw.cymru](mailto:gcg@gwynedd.llyw.cymru)

Sut i wneud cwyn

Mae gennych hawl i gael eiriolwr annibynnol. Dylech ofyn i'ch Gweithiwr Cymdeithasol neu'r Rheolwr Cartref Gofal i roi manylion cyswllt i chi.

Os nad ydych yn hapus gydag unrhyw agwedd o'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, hoffem gael gwybod mor fuan ag sy'n bosib er mwyn ceisio datrys y sefyllfa. Gall oedi ei gwneud yn anodd adnabod beth yn union sydd wedi mynd o'i le.

Gallwch gysylltu â Swyddog Gofal Cwsmer Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant y Cyngor gyda chwyn, gair o ganmoliaeth neu sylwad ar sut i wella'r Gwasanaeth drwy:

Post: Swyddog Gofal Cwsmer
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH
☎ 01286 679549 • ✉ [gcgc@gwynedd.llyw.cymru](mailto:gcg@gwynedd.llyw.cymru)

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Gofal Preswyl

Sut i gysylltu â ni?

Timau Oedolion

Ardal Llyn:

☎ 01758 704099

✉ OedolionLlyn@gwynedd.llyw.cymru

Ardal Caernarfon:

☎ 01286 679099

✉ OedolionCaernarfon@gwynedd.llyw.cymru

Ardal Bangor:

☎ 01248 363240

✉ OedolionBangor@gwynedd.llyw.cymru

Ardal Eifionydd/Gogledd Meirionnydd

☎ 01766 510300

✉ OedolionEifionydd/GogMeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru

Ardal De Meirionnydd

☎ 01341 424499

✉ OedolionDeMeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru

Timau Anableddau Dysgu

Tîm Anableddau Dysgu Gogledd Gwynedd: 01286 682751

Tîm Anableddau Dysgu De Gwynedd: 01341 424424

Timau Iechyd Meddwl

Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Arfon: 01248 363470

Tîm Iechyd Meddwl De Gwynedd: 0300 852407

Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel

🌐 www.gwynedd.llyw.cymru

Atodiad A - Ffioedd

**Tabl Ffioedd Gwasanaethau Preswyl a Nyrsio- Gweithredol o'r
01/04/2022**

Ffi Safonol Cartrefi Preswyl Cyngor Gwynedd	£795.90 yr wythnos
Cartrefi Gofal Preifat ac Annibynnol	
Categori gofal	
Preswyl	£645.00 yr wythnos
Preswyl- Dementia/Dibyniaeth Uchel	£780.00 yr wythnos
Nyrsio	£800.00* yr wythnos
Nyrsio - Dementia/Dibyniaeth Uchel	£900.00* yr wythnos

* Dim yn cynnwys cyfraniad y Bwrdd Iechyd

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Gofal Preswyl

Atodiad B- Gwybodaeth Gyffredinol

Manylion Ariannol Eraill - gweithredol o'r 01/04/2022

Terfyn Cyfalaf	£50,000.00
Isafswm Incwm - Gofal Preswyl a	£35.00
Nyrsio Diystyriaeth Credyd Cynilion	£5.75 yr wythnos sengl £8.60 yr wythnos cwpl
Uchafswm Tâl Wythnosol - Gofal Ysbaid a Dros Dro am yr 8 wythnos gyntaf Terfyn Cyfala f(rheolau di-breswyl)	£100 yr wythnos £24,000
Taliadau Gohiriedig	2022/23
Cyfradd Llog (newidiol)	0.15% uwchlaw i gyfradd 'giltiau'r farchnad'. Mae'r gyfradd hwn yn amrywio. Cysylltwch gyda'r Uned Incwm a Lles am y gyfradd gyfredol
Ffioedd Cyfreithiol	£175.00
Ffi Archwiliad Teitl Cofrestrfa Dir	£3.00
Ffi Cais Arwystl Cofrestr Tir	£20.00 (Dros y We) neu £40.00 (Post)
Ffi Prisiad Eiddo	£150.00
Ffi Weinyddol	£51.00

Cyfnodau Rhybudd dod a chytundeb i ben, Cartrefi Gofal

Cyfnod rhybudd safonol	7 diwrnod - ffi llawn
Cyfnod rhybudd cyfnod ysbaid	Ffi llawn yn daladwy i'r diwrnod olaf a drefnwyd os nad oes cytundeb i dalu llai
Cyfnod rhybudd mynediad mewn argyfwng	Dim
Ffi yn ystod absenoldeb	2 wythnos ar y gyfradd wythnosol llawn, yna 2 wythnos ar 80% o'r gyfradd wythnosol llawn. Ni fydd effaith i gyfraniad y defnyddiwr os nad yw'n uwch na 80% o'r gyfradd llawn. Bydd y cytundeb hwn yn terfynu wedi hyn os nad oes trefniant yn cael ei wneud i gadw'r ystafell. Os oes trefniant pellach bydd 80% o'r gyfradd llawn yn daladwy.